# DINESYDD
## Mai–Mehefin

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1979 Rhif 58


# TRI CHAM YMLAEN

## gan ein Gohebydd Arbennig

**Yn ystod y mis, gwelwyd tri datblygiad a fydd o'r pwys mwyaf i ddyfodol y Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Cylch. Mae'r tri yn gysylltiedig â'i gilydd a'r ail a'r trydydd yn arbennig felly.**

Yn gyntaf, bydd Ysgol Gymraeg newydd, neu o leiaf ysgol yn ei chartref annibynnol ei hun yn y Bontfaen ym mis Medi. Yn dawel fach, yn ystod y chwe blynedd diwethaf tyfodd nifer y plant yn derbyn addysg ddwyieithog yn yr hen dre o 8 ym Medi 1973 i rif a fydd tua 70 fis Medi nesaf. Wedi cychwyn yn ysgol Maendy y tu allan i'r Bontfaen cawson le yn hen adeilad Ysgol Gynradd y Bontfaen, sef ysgol gynradd gyffredinol y dre, a chafwyd adeilad newydd i honno ychydig flynyddoedd yn ôl. Nawr, a'r adran Gymraeg wedi tyfu cymaint, penderfynwyd ei gwneud yn ysgol gyflawn â'i phrifathro neu'i phrifathrawes ei hun. Bydd penodiad i'r Swydd hon cyn bo hir. Rhif teleffon yr ysgol yw Y Bontfaen, 2358 ac Ysgrifennydd y Gymdeithas Rhieni yw Mr. John Pugh, Ffôn: Y Bontfaen, 2830.

Yr ail ddatblygiad yw bod llythyr wedi dod o'r Swyddfa Gymreig at y rhieni yn dweud bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru wedi cytuno â chynllun Cyngor De Morgannwg i sefydlu ysgol Gymraeg yn yr Eglwys Newydd. Yn yr adeilad a adweinir ar hyn o bryd fel Ysgol Fabanod Eglwys Wen y'i sefydlir; a bydd y plant sydd yno nawr yn ymuno â'r plant fydd yn yr ysgol iau ar yr un maes i wneud un Ysgol Gynradd â Saesneg yn brif gyfrwng iddi. Mynegodd Mrs. Margaret Jones (Llywydd Cymdeithas Rhieni yr Eglwys Newydd a'r Cylch, h.y. rhieni'r plant fydd yn Ysgol Gymraeg Eglwys Wen o fis Medi ymlaen: ei rhif ffôn yw Caerdydd, 63749) ei phleser a'i llawenydd o dderbyn llythyr y Swyddfa Gymreig. Ei bwriad yw cydweithio â rhieni'r plant yn ysgol arall Eglwys Wen (yr un Saesneg ei chyfrwng), ar broblemau fydd o diddordeb cyffredinol ac a fydd er budd plant y ddwy ysgol.

Y trydydd cam ymlaen yw penderfyniad De Morgannwg i dderbyn pob un o'r 105 o blant y mae'u rhieni am iddynt fynd i Ysgolion Cymraeg Caerdydd ym Medi 1979. Fe gofiwch y clywyd yn rhifyn diwethaf y Dinesydd am bryder Cymdeithas Rhieni Bryntaf na chai pob un o'r plant hyn ei dderbyn ym mis Medi. Bellach, wedi cyfarfod pwyllgor yr Awdurdod yn y Swyddfa yn Heol Casnewydd ar y 14eg o Fai (a dirprwyaeth gref o'r rhieni wedi dod i ddangos sut y teimlent ynglŷn â'r mater), gwyddys na fydd rhwystr yn ffordd unrhyw blentyn. Mwy na hynny, dywedodd Cadeirydd y Cyfarfod, Y Cynghorwr Frank McCarthy y byddai'r awdurdod yn cymryd y mesurau anghenrheidiol i ddarparu ar gyfer y twf a ragwelir yn nifer y plant y mae eu rhieni yn mofyn iddyn nhw gael addysg Gymraeg. I'r pwrpas hynnw, meddai, yr oedd eisiau dod i gysylltiad â'r ysgolion Meithrin er mwyn cynllunio ymlaen. "Mae na gryn dorf yma", ychwanegodd y Cynghorwr, "ond dyma'r fath o dorf rwy'n hoffi'i chyfarfod. Cawson ni gwrdd â rhieni Bryntaf mewn cyfarfod cyhoeddus, a chawson ni mo'n gadael; mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r broblem".


Mae'n amlwg i adroddiad gweithgor Cymdeithas Rhieni Bryntaf fod o werth mawr i'r awdurdod i ddod i'w penderfyniad a gobeithir rhoi ei sylwedd i chi yn y rhifyn nesaf. Mae'n dilyn yr un llinellau yn gyffredinol â'r gwaith a wnaed dros ugain mlynedd yn ôl gan Bwyllgor Talaith Dwyrain Morgannwg o Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg. Paratowyd y ffigurau tebygol am bob blwyddyn hyd at tua 1966 o'r plant fyddai'n ymadael â'r naw ysgol Gynradd Gymraeg yn y cylch i fynd i'r ysgol uwchradd Gymraeg y buasid yn gofyn yn gyson amdani er 1952. Rhoddwyd y ffigurau i Gyfarwyddwr Addysg yr hen Forgannwg ar y pryd, y diweddar Dr. Emlyn Stephens a'i ddirprwy, y diweddar Trefor Jenkins, ac wedi tair blynedd arall o ymdrech, ym Medi 1962, fe agorwyd Rhydfelen. Wedyn, daeth Llanhari a Glantaf ac yn y man daw Ysgol Cwm Rhymni. A bydd eisiau darpariaeth bellach yn Ne Morgannwg erbyn y bydd Glantaf yn llawn dop! DYFAL DONC AMDANI!

**CYFARFOD Y CYMDEITHASAU CYMRAEG**

Y mae angen ffurfio Pwyllgor i gadw golwg ar ddarpariaeth Gymraeg y cwmni a benodir i fod yn gyfrifol am wasanaeth radio lleol yng Nghaer dydd.

Apelir ar i gymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r Cylch anfon cynrychiolwyr i gyfarfod a gynhelir yn:

***Festri Capel Heol y Crwys, Nos Sul, Mehefin 17, am 8.00 p.m.***



**Gŵyl Feithrin Tudalen 12**

# Golygyddol

Etholiad a achosodd lawer o holi fu etholiad cyffredinol dechrau'r mis, a hynny nid yn unig ymhlith y rhai a gollodd, sef pawb ond y Toriaid, ond mae'n fwy na thebyg, ymhlith y Toriaid eu hunain hefyd. Mwy na chanrif wedi torri eu crib gan y mudiad radicalaidd a ysgubodd bopeth o'i flaen yn fuddugoliaethus yn y man o dan arweiniad pobl fel Tom Elis a David Lloyd George, dyma'r Toriaid yn dod yn ôl yn ddigon cryf, yng Nghymru o bob man, i ennill 11 sedd gyda thuag un o bob tair pleidlais. Bydd rhai pobl ar eu hennill yn fawr wrth gwrs, ond os yw hanes wedi dysgu rhywbeth inni, mae lle i ofni mai gwahanol iawn y bydd hi ar drwch y bobl.

* * * *

Un o golledion mwyaf yr etholiad, yn wir, y golled bennaf ym marn llawer o bobl, fu colli Caerfyrddin gan Gwynfor Evans. Dyma un o'r 12 aelod y dywedodd y "Sunday Times" ym 1970 y dylid eu hanfon yn ôl i'r Senedd waeth beth eu lliw politicaidd. Dyna'r fath o argraff a greodd mewn llai na phedair blynedd yn San Steffan. 'Roedd llawer o bobl Cymru yn ei nabod eisoes ers mwy na chwarter canrif cyn hynny ac yn gwybod ei werth. Mae colli Caerfyrddin yn ergyd galed iddo ef a'r Blaid y rhoddodd gymaint o'i egni, amser a doniau iddi, ond peidiwn â bod yn rhy hunanol drwy warafun iddo'r ychydig seibiant mae'n ei haeddu gymaint. Nid yw'n debyg o ddefnyddio hwnnw chwaith ond i hyrwyddo'r achos mae'n credu cymaint ynddo!

* * * *

Cyfarchwn yn awr y bobl ddyfal hynny fu'n gweithio ac sy'n dal i weithio yn ddibaid dros addysg Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Cylch, sef Cymdeithas Rhieni Bryntaf a'i gweithgor a baratodd yr adroddiad ar y sefyllfa (gweler Dinesydd Mawrth/Ebrill) debygol hyd at 1993. Roedd dadleuon yr adroddiad hwn yn hollol ddilys, wedi'u seilio ar ffeithiau. Ond nid pawb sy'n barod i dderbyn hyd yn oed ffeithiau. Cyfarchwn felly, hefyd, Bwyllgor Addysg De Morgannwg am dderbyn y ffeithiau, ac am benderfynu gweithredu arnyn nhw. Disgwyliwn yn awr naid ymlaen ym Mryntaf a'r Eglwys Newydd (Ysgol Eglwys Wen), a hefyd yn yr Ysgol Gymraeg 'annibynnol' fydd yn y Bontfaen ym mis Medi. Rhagorol!

## *Anfonwch eich defnyddiau!*

O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT. *Dyw hi byth yn rhy gynnar* a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella *ERBYN Y 15fed O BOB MIS*. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 20fed o'r mis.

Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:

Shân Emlyn — 751469
Gwyn Lewis Davies — 756882
E. Gunston Jones — 499469
T. Raymond Edwards — 563588

Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.

# —Y CALENDR—

| | |
|---|---|
| Mai 29—Mehefin 1 | Cofiant y Cymro Olaf. Cwmni Theatr Cymru — Arena |
| Mehefin 6—9 | Y Terfyn (Michael Povey) Cwmni Theatr yr Ymylon — Arena |
| | 2.30 o'r gloch. Ffair Haf Cylch Meithrin Rhiwbeina, Neuadd Goffa, Lôn Ucha. |
| 20 | 7 o'r gloch. Cyngerdd Blynyddol Côr a Cherddorfa Ysgol Gyfun Glantaf yn Neuadd Reardon Smith. Arweinydd: Alun Guy. |
| 23 | Dawns Werin Gŵyl Ifan, Nantgarw. |
| 27 | Tŷ ar y Tywod (Gwenlyn Parry) Cwmni Cymraeg Coleg Cerdd a Drama Cymru — Bute |
| 29 | Barbeciw Capel y Crwys, Porthceri, Y Barri. |
| 30 | Cylch Diwylliannol Caerffili: Taith i Wlad Waldo. |
| 30 | 2 o'r gloch. Ffair Haf Ysgol Gyfun Glantaf. Yn yr Ysgol. |
| Gorffennaf 12 | 8 o'r gloch. Cyfarfod Blynyddol Clwb Cinio Merched Caerdydd yn y Barri. |
| Medi 21 | Dawns y Ganolfan yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. |

## MERCHED Y WAWR

### CYNLLUN GŴYLIAU I DDYSGWYR

Mae MERCHED Y WAWR yn trefnu gŵyliau i DDYSGWYR mewn CARTREFI CYMRAEG, er mwyn iddynt gael **YMARFER SIARAD CYMRAEG** A DOD I ADNABOD CYMRU A'I PHOBL.

Byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn cynnig helpu gyda'r cynllun pwysig yma drwy gynnig llety.

Os oes gennych ddiddordeb llenwch y ffurflen isod a'i hanfon i, - NESTA LLWYD, Tonteg, LLANUWCHLLYN, Y BALA, Gwynedd.

Rhif Ffôn: Llanuwchllyn 285.

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

ENW

CYFEIRIAD


FFÔN OED

Cynigiaf (a) WELY A BRECWAST ... £25 am wythnos.
(b) WELY, BRECWAST A PHRYD NOS £35 am wythnos.
(c) PENWYTHNOS ... £3.75c. y noson.

DYDDIAD/AU y cynigir gwyliau . . . . . . . . . . . . . . . . . .
SAWL WYTHNOS/PENWYTHNOS . . . . . . . . . . . . . . . . . .
LLE I FAINT O BOBL . . . . . . . . . . . . . . . . . . .(dyn/merch)
A YDYCH YN FODLON DERBYN TEULU (Dysgwyr a'u plant)? YDW/NAG YDW.
A fuasech mor garedig ac anfon amlen wedi ei chyfeirio a'i stampio gyda'ch cais. DIOLCH YN FAWR.

# Dyfodol y Brifwyl — y Ffeithiau

## gan Emyr Jenkins



**Yn ôl yr Adroddiad ariannol, dyma fyddai canlyniad parhau y drefn bresennol. Mae'r cyfansymiau hyn i gyd yn cynnwys costau'r Llys a'r Cyngor, yr Orsedd a'r Eisteddfod ei hun.**

| | 1980 | 1981 | 1982 | 1983 | 1984 | 1985 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Colled (miloedd)** | 161 | 253 | 224 | 322 | 294 | 418 |

**Mae'n gwbl amlwg na fedr yr Eisteddfod gynnal y colledion hyn.**

**Wrth aros dwy neu dair blynedd yn yr unfan, ni fyddai yr arbediad yn yr ail neu'r drydedd flwyddyn yn ddigon i wrthsefyll colled enfawr y flwyddyn gyntaf.**

**Yn ôl yr Adroddiad, dyma fyddai'r canlyniadau tebygol**
**a) wrth deithio'n flynyddol mewn pabell,**
**b) wrth symud i fan sefydlog yn 1981.**
**Cymharer y colledion hyn (miloedd) â'r drefn bresennol a welir uchod.**

| | 1981 | 1982 | 1983 | 1984 | 1985 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **a) Pabell** | 55 | 9 | 92 | 46 | 157 | 359 |
| **b) Sefydlog** | 21 | 20 | 53 | 26 | 87 | 207 |

**Byddai cost sefydlu'r maes parhaol yn ychwanegol at hyn ond petaech yn bwrw'r costau ymlaen ddeng mlynedd arall byddai'r gwahaniaeth rhwng a) a b) yn llawer mwy eto.**

**Ar ol dadl frwd o safon uchel dros ben, fe benderfynodd Cyngor yr Eisteddfod, o ddeg pleidlais ar hugain i chwech, i argymell i'r Llys fod yr Eisteddfod yn symud i fan sefydlog erbyn 1982. Eisoes cafwyd gwahoddiadau i sefydlu'r maes parhaol ym Machynlleth, Abertawe ac Aberystwyth.**

**Ond sut fyddai'r drefn newydd yn gweithio? Beth fyddai'r gwahaniaeth?**

**Mewn gwirionedd, fawr ddim cyn wythnos yr Ŵyl. Pe cynhelid Eisteddfod Caerdydd o dan y drefn newydd fe fyddai Swyddfa'r Eisteddfod yn 24 Windsor Place fel o'r blaen. Byddai'n rhaid i Emyr Currie-Jones alw ei Bwyllgor Gwaith ynghyd yn Neuadd y Ddinas. Byddai Alun Guy wrthi yn ymarfer ei gôr a'r Alun arall yn brysur gyda'i gwmni drama. Byddai plant Bryntaf, plant ysgolion y ddinas, plant Llanhari a Rhydfelen wrthi yn paratoi y pasiantau a'r cyngherddau yn union fel a gafwyd, a byddai gofyn i'r holl bwyllgorau baratoi y Rhestr Testunau fel arfer.**

**Y gweithgarwch paratoadol arferol felly — ond gyda dau wahaniaeth mawr! Yn gyntaf, byddai gwên ar wyneb Trefor Phillips wrth iddo sylweddoli fod ganddo gyfrifoldeb am y Gronfa Leol yn unig. Yn ail, yn lle sgriwio seddau'r Pafiliwn, byddai amser gan Richard Hall Williams a'i gyd-weithwyr i droi at bethau eraill — codi Parti Dawns Werin efallai!**

**Uchafbwynt y gweithgarwch hyn i gyd fyddai cynnal Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar lwyfan parhaol a theilwng o flaen y genedl. Yn sicr, byddai angen cludo pobl a phlant at y llwyfan hwnnw, ond nid yw'n bosibl cludo llwyfan mawr y Genedlaethol at bobl Caerdydd bellach.**

**Mewn gair, os ydym i gadw yr Eisteddfod Genedlaethol ar y raddfa bresennol a chodi ei safon, dyma, ym marn y Cyngor, yr unig ateb.**

**Pam y brys, meddech chi? Yn syml,** *os na newidir y drefn bresennol ar fyrder fe fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn feth-dalwr ymhen deunaw mis. Canlyniad hynny fyddai dim Eisteddfod Genedlaethol o gwbl, a'r ddyled yn syrthio ar ysgwyddau pob aelod unigol o'r Llys.*

**Wrth argymell hyn i'r Llys, gobaith y Cyngor yw i ni fedru symud o'r obsesiwn presennol â phroblemau'r Brifwyl i ystyriaeth, unwaith eto, o'i llwyddiant a'i gogoniant.**

# EISTEDDFOD WAHANOL

**Cynhaliwyd eisteddfod dra gwahanol nos Fercher, Mawrth 28ain, yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, sef Eisteddfod i Ddysgwyr Cymraeg Ysgolion Nos Morgannwg. Dyna'r eisteddfod gyntaf yn arbennig i oedolion sy'n dysgu Cymraeg i'w chynnal yng Nghaerdydd. Syniad Dafydd Prys oedd y gweithgaredd hwn yn y lle cyntaf. Mae Dafydd, sydd wedi dysgu Cymraeg, yn awr yn athro Cymraeg yng Nghanolfan yr Urdd ac yn aelod o Gymdeithas Dysgwyr Caerdydd, ac ef wnaeth y trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod.**

Daeth torf enfawr ynghyd i'r Eisteddfod hanesyddol hon, a 'roedd neuadd y Ganolfan dan ei sang drwy gydol y noson. 'Roedd yn galonogol iawn i weld llawer o Gymry Cymraeg yn y gynulleidfa, yn cefnogi'r dysgwyr brwdfrydig hyn. Cystadlodd saith ganolfan: Llanilltud Fawr, Penybont-ar-Ogwr, Penarth, Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, Canolfan Hamdden Trelai, Canolfan yr Urdd, a Chanolfan Oedolion yr Eglwys Newydd. 'Roedd perfformiadau o safon uchel, a chafwyd noson arbennig o hwyliog gan bawb.

Cyfraniadau caboledig a difyr, yn ôl y disgwyl, a gawson gan y ddau arweinydd, John Albert Evans a Bryan James, a gan y beirniaid Alun Guy, Eleri Rogers, Benni Harries, Mair Jones, Ken Kane, Bill Raybould, Dafydd Stickler a Cen Williams.

Uchafbwynt y noson oedd Seremoni Coroni Prif Lenor yr Eisteddfod. Yr enillydd oedd Robert Eynon o Ganolfan yr Eglwys Newydd a chafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, Benni Harries, am ei stori fer. Bydd y stori yn cael ei chyhoeddi yn rhifyn nesaf papur y dysgwyr, 'Yr Agoriad'.

Daeth y noson i ben mewn ffordd arbennig o gyffrous. Seremoni olaf y noson oedd gwobrwyo'r ganolfan â'r marciau uchaf yn y cystadlaethau i gyd, a phopeth yn dibynnu ar yr eitem olaf, y côr cymysg. Parti Penybont oedd yn fuddugol, gyda pherfformiad ysbrydoledig. Canolfan Penybont felly enillodd y cwpan (139 o farciau), Canolfan yr Eglwys Newydd o fewn trwch blewyn iddynt (137 o farciau) yn ail, a Chanolfan yr Urdd (107 o farciau) yn drydydd. Diolch i'r dysgwyr am y fath wledd.

'Roedd hon yn noson lwyddiannus dros ben, ac mae trefniant Eisteddfod y flwyddyn nesaf ar y gweill eisoes. 'Rydym yn ystyried llogi Y Pafiliwn!

**Buddugwyr**

| | |
|---|---|
| Unawd Merched: | Cynthia Ifans, Canolfan yr Urdd |
| Unawd Dynion: | Mike Wayne, Penybont |
| Unawd Piano: | Jennifer Evans, Eglwys Newydd |
| Unawd Offerynnol: | Frank Jones, Eglwys Newydd |
| Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf: | Heather Rothwell, Canolfan yr Urdd |
| Adroddiad yr Ail Flwyddyn a Drosodd: | cydradd gyntaf, Marian Davies, Canolfan yr Urdd a Cyril Hussey, Eglwys Newydd |
| Darllen: | Gwenllian Williams, Penybont |
| Darllen Darn heb Atalnodau: | Bronwen James, Canolfan yr Urdd |
| Dramodig rhwng dau: | cydradd gyntaf Gwenllian a Greg, Canolfan yr Urdd, Terry a Roger, Penybont |
| Dawns Werin: | Parti Canolfan yr Urdd |
| Cyd-adrodd: | Parti'r Eglwys Newydd |
| Parti Merched: | Parti Penybont |
| Parti Meibion: | Parti Canolfan yr Urdd |
| Côr Cymysg: | Côr Penybont |
| Coginio: | Bara Brith—Jean Preston, Eglwys Newydd<br>Teisen Lap—Joyce Rees, Llanilltud Fawr<br>Pice ar y Mân—John Lewis, Penybont |
| Darlun: | Gail Kennard, Efrydiau Allanol |
| Cartwn: | T. J. Pugh, Penybont |
| Sgets Pensil: | Gail Kennard, Efrydiau Allanol |
| Cofrodd: | J. Harries, Canolfan yr Urdd a Sandra Hawkins, Penybont yn gyfartal |
| Llun â Chamera: | Iorwerth Rees, Canolfan yr Urdd |
| Dyddiadur: | Marian Davies, Canolfan yr Urdd |
| Traethawd: | Ann Rees, Penybont |
| Limrig: | John Lewis, Penybont |
| Brawddeg: | Jean Broughton, Eglwys Newydd |
| Cerdd: | T. J. Pugh, Penybont |
| Stori Fer y Goron: | Cadwgan—Bob Eynon, Eglwys Newydd, Huw Powell |

Huw Powell

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695)

**AR WERTH neu AR OSOD SIOP BACO, SIGARETS A MELYSION yn LLANRWST**
**Ffonier Llanrwst 640712 ar ôl 7.30 p.m. unrhyw noson.**

# Gethin yr Artist Ifanc

Llongyfarchiadau i Gethin Grey ar gael derbyn ei lun i Arddangosfa'r Western Mail, 1979. Gobeithio y cawsoch gyfle i weld ei 'Iâr a'i Chywion' tra oedd yr arddangosfa ar daith drwy Gymru.

**Arfordir Gogledd Penfro**

Ffermdy traddodiadol a chyfleusterau modern i'w osod am wyliau hunan gynhaliol.
Cys. B. Davies, Hirwenfa, Pont-hirwaun, Aberteifi.
Ffôn: Llechryd 562

**CADW LLYFRAU**

**Mae ar Yr Academi Gymreig angen rhywun llawn-amser (bore neu ddau yr wythnos) i ofalu am y llyfrau cyfrifon. Oriau hyblyg. Ffoniwch Caerdydd 398189/0 yn ystod oriau gwaith.**




# Ffenestr-siop Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hur-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

# CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd, tel. 388[illegible]
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sul 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

ONWINDOWS
— *yr enw y gellwch ymddiried ynddo* JWil
(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# Drama yn rhad ac am ddim

Y deffiniad o ddinesydd, y mae'n debyg, ydy person sy'n byw mewn dinas, a rhaid i ni gofio fod yng Nghaerdydd nifer o fyfyrwyr Cymraeg yn byw yn ein plith tra bônt yn y colegau — yn fyr, maent yn ddinasyddion, ac ymdrechir i gael copïau o'r Dinesydd iddyn nhw.

Mae nifer o'r rhain yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru, neu Goleg y Castell. Ac ar Nos Fercher, Mehefin 27, maen nhw'n perfformio Tŷ ar y Tywod, gan ddinesydd arall, Gwenlyn Parry, yn Theatr Bute.

Rhan o waith y myfyrwyr yw'r perfformiad yma ac maen nhw'n apelio am gynulleidfa. Boed i bob dinesydd o Gardi godi ei glustiau a gwrando. Does dim tâl am fynd i mewn. O'i roi mewn ffordd arall, yn rhad ac am ddim. Felly, dewch yn llu i fwynhau drama dda ac i gefnogi'r myfyrwyr. Chewch chi mo'ch siomi.

Mae'r perfformiad yn dechrau am 7.30pm. Rhaid ichi gael tocynnau ymlaen llaw ac fe'u ceir trwy wneud cais i'r Swyddfa Docynnau, Coleg Cerdd a Drama Caerdydd erbyn Mehefin 20, neu gellir ffonio'r swyddfa docynnau (42855) rhwng un a dau yn y cyfnod o ddydd Mercher, 13 Mehefin i ddydd Mercher 27 Mehefin.

**Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.**

# CADEIRYDD NEWYDD GWASG Y BRIFYSGOL

Etholwyd yr Athro J. Gwynn Williams, Bangor, yn Gadeirydd Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru. Ef yw pennaeth Adran Hanes Cymru yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, a bu'n Is-Brifathro'r Coleg o 1974 nes iddo ymddiswyddo yn ddiweddar. Ei ragflaenydd fel Cadeirydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf oedd Syr Goronwy Daniel, Prifathro Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ac Is-Ganghellor y Brifysgol, sydd yn aros yn aelod o'r Bwrdd.

Mewn cyfarfod yn Abertawe yn ddiweddar, talwyd teyrnged gan y Cadeirydd newydd a dau o aelodau hynaf Bwrdd y Wasg, sef yr Athro Emeritus E.G. Bowen a'r Athro Caerwyn Williams, i'r cyfraniad arbennig a wnaeth Syr Goronwy i waith y Bwrdd, ei Goleg a'i Brifysgol, ac i fywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Wedi ymadael â Choleg y Brifysgol Bangor, ym 1950, bu J. Gwynn Williams ar staff Adran Allanol Prifysgol Lerpwl hyd 1954, ac yna o 1955 hyd nawr yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, yn ddarlithydd ac yma, o 1963, yn Athro Hanes Cymru yno.

Arbenigodd ar hanes Cymru yn yr ail ganrif ar bymtheg. O 1972-4 bu'n Ddeon Cyfadran y Celfyddydau ac o 1974-9 yn Is-Brifathro'r Coleg.

Mae'n aelod o Gomisiwn Brenhinol Henebion yng Nghymru er 1961, yn Gadeirydd Pwyllgor Hanes a Chyfraith Bwrdd y Gwybodau Celtaidd, ac yn aelod o Gyngor a Llys y Llyfrgell Genedlaethol oddiar 1967.

**HYSBYSEBU**

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)

# Y BLAID — BLE NESA?

## Y Dinesydd yn holi Owen John Thomas

**Dinesydd.**
**Rydych chi'n frodor o Gaerdydd sy wedi bod yn flaengar yn ymladd dros achos y Blaid yn y ddinas hon am rai blynyddoedd, ond chawsoch chi ddim ond ychydig dros fil o bleidleisiau yn etholaeth Gogledd Caerdydd. Sut felly?**

O.J.Thomas
Ar ôl y refferendwm doedd Plaid Cymru ddim yn rym credadwy. Daeth yr etholiad wedyn mor fuan fel nad oedd cyfle i adennill ein cefnogaeth. Ar ben hynny roedd dylanwad y teledu y tro 'ma yn fwy nag erioed: cafodd ymgeisydd Rhyddfrydol mewn un o wardiau lleol Caerdydd ugain y cant o'r bleidlais, heb ddosbarthu taflen na churo drws, meddai ef. Gwnaeth y teledu ei waith drosto! Ni fydd byth etholiadau democrataidd yng Nghymru os na chaiff Plaid Cymru yr un cyfle â'r pleidiau Seisnig i roi ei hachos ger bron.

Dinesydd.
Heb obaith nawr, efallai am amser hir, o ddatganoli i Gymru, pa ddyfodol sydd i Blaid Cymru?


O.J.Thomas
Mae angen wedi bod ers cryn dipyn o amser i'r Blaid ail-ystyried pwyslais ei hymgyrch; felly, gawn ni fanteisio ar y sefyllfa bresennol i wneud hynny. Mae prif amcan y Blaid am y deng mlynedd diwethaf wedi bod yn un o ennill pleidleisiau yn hytrach nag ennill cefnogaeth i'n hamcanion. Mae 'na wahaniaeth sylfaenol yma; nid yw pleidleisiau ynddyn nhw'u hunain yn ddigon i fod yn sail i adeiladu Cymru newydd. Mae'n rhaid i ni gael mwy o aelodau newydd a chreu mwy o sefydliadau Cymraeg, clybiau a gweithfeydd cydweithredol, ac fe ddylen ni hefyd sicrhau mwy o ddylanwad yn yr undebau llafur. Yn ystod y deuddeng mis nesaf bydd llawer o ddadansoddi, trafod, cynnig a phenderfynu er mwyn dod i'r casgliad cywir.

Dinesydd
Yn y pendraw bydd rhaid i Blaid Cymru ddod yn Blaid boblogaidd y mwyafrif yng Nghymru er mwyn cyflawni ei hamcanion. Sut y gwelwch chi'r Blaid yn gwneud hyn?

O.J.Thomas
Fe ddaw grym gwleidyddol i'r Blaid ar ôl i etholwyr Cymru gael eu polareiddio rhyngon ni a'r Ceidwadwyr, h.y. y rhai sydd am newid yn erbyn yn rhai sydd yn gwrthwynebu newid. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon fe ddisodlir y Blaid Lafur gan Blaid Cymru. Datblygir athroniaeth wleidyddol Plaid Cymru ym modd plaid sosialaidd ddemocrataidd — yn gwrthwynebu rheolaeth ganolog dan y wladwriaeth ond yn mynnu mwy o rym a chyfiawnder i'r bobl. Pan ddaw athroniaeth wleidyddol y Blaid yn fwy llym a phenderfynol fe ddaw hefyd gefnogaeth ehangach i'n hamcanion.

Dinesydd
Mae'r Ceidwadwyr, yn draddodiadol Plaid y Saeson yng Nghymru, wedi cipio Môn a Phowys gyfan ac wedi ennill tir ym mhob rhan o Gymru bron. Hefyd mae Gwynfor wedi colli Caerfyrddin, ond eto i gyd rydych chi'n siarad fel petai gobaith newydd ar y gorwel. Pam felly?

O.J.Thomas
Mae'n dda i bobl Cymru, yn arbennig pobl y Blaid Lafur, sylweddoli beth sydd yn digwydd i'w gwlad nhw. Allan o ddrygioni fe ddaw daioni. Rwyf yn croesawu'r cyfle a greir gan y sefyllfa bresennol i roi'r Blaid yn ôl ar y llwybr unionsyth. *Nid ennill pleidleisiau er mwyn achub Cymru bydd ein nod bellach ond yn hytrach ennill cefnogaeth i adeiladu Cymru newydd.* Hoffech chi ymuno â ni?





# TERAKU! TERAKU!

## gan Gwyn Lewis Davies



**Croesodd Peter y ffordd lychlyd i'r caban o ffrondiau'r palmwydd, â'i do o ddail pandanws, i ofyn i Atara a fyddai yn hoffi dod gyda ni i bysgota am dri o'r gloch y p'nawn hwnnw. Yr oedd penllanw am 4.32 y prynhawn, felly pan fyddem yn dychwelyd ar ôl tair awr o bysgota, fe fyddai eto digon o ddŵr inni ddod â'r cwch i mewn dros y rîff a'i drochion aflonydd.**

Byw yr oeddem i gyd (minnau dros dro) ar Atol Tarawa, Un o grwp bychain a phellennig y Gilberts ynghanol y Môr Tawel, dyna yw Atol Tarawa, a phob ynys yn wyrdd gan filoedd o goed palmwydd tal, â'u ffrondiau yn chwifio yn ysgafn yn yr awel. Mae dŵr clir y lagŵn o liw gwyrdd golau yn pelydru yn yr haul, a chan nad oes iddo ddyfnder mawr mae hi'n bosib syllu lawr i weld y cwrel byw canghennog a'r pysgod bychain lliwgar sy'n cael lloches ymhlith y siapiau cymhleth; pysgod o las llachar, a lliw oren, rhai coch a gwyrdd a du, yn gwibio ac yn gwingo i mewn ac allan o'r cwrel, yn gwneud pictiwr symudliw hudolus.

### Atara yn cyrraedd

Ond mae Peter am fynd ar ôl y pysgod mawr. Mae ei dŷ yn wynebu ar y môr mawr ac nid ar y lagŵn. Ac felly, am dri o'r gloch, fel mae Atara yn cyrraedd, i'r foment, dyma ni yn paratoi i rowlio'r cwch, ar foncyff pandanws, dros yr ychydig droedfeddi o dywod cwrel o liw hufen golau, sydd rhwng tŷ Peter â marc penllanw'r môr. Mae'r cwch a'i ddau fodur allfwrdd symudadwy, yn nofio, mewn fawr o dro, yn yr ychydig fodfeddi o ddŵr sydd angen arno.

"Eisteddwch i fyny acw yn y bow, Dad," meddai Peter, "A gafaelwch yn dyn yn y rhaff 'na."

Er fy syndod, nid yw Peter nac Atara yn fy nilyn i'r cwch. Heb danio yr un o'r moduron, dyma nhw yn gwthio'r cwch allan, gan ei ddal yn wastad, nes bod y dŵr at eu canol ac ymhen tipyn at eu hysgwyddau. Yr ydym wedi cyrraedd ymyl y rîff, lle mae'r tonnau mawr yn taranu ar ddibyn y clogwyn tanddwr ac ymyl y cwrel yn plymio i ddyfnderoedd yr eigion. Mae Peter at Atara jest yn dal trwyn y cwch at y tonnau a'u myngau o ewyn gwyn. Mae un, dwy, tair, pedair o donnau mawr yn codi blaen y cwch i'r awyr ac yn fy ngwlychu at fy nghroen. Mae fy mhen ôl yn ymwahanu droeon oddiwrth yr hen deiar rwber a fwriadwyd yn glustog "esmwyth" imi.

Ond mae Peter yn ceisio dewis yr union foment i ruthro drwy'r *breakers* at y dŵr tawelach y tu hwnt iddynt. Yn sydyn, fel mae ton fawr eto yn achosi i'r cwch lamsachu fel ebol gwyllt, dyma fo'n gweiddi,

"Tamaroa! Atara," ac yn ei godi ei hun yn gyflym i'r cwch a thynnu nerth braich ar gortyn-cychwyn un injan. Mae'r injan yn rhuo fel peth byw, ac Atara, yn ystwyth a heini, ar waetha'i hanner-can-mlwydd oed, yn ei dynnu ei hun i starn y cwch. Mae Peter wedi gweld fod y don nesaf yn debyg o fod yn llai, ac yn arafach yn ymffurfio. Ond fel mae'r injan yn gyrru'r cwch ymlaen i'w chyfarfod, dyma hi yn codi ei phen cyrliog gwyn ac yn ein trochi at ein crwyn unwaith eto fel yr ydym yn torri trwyddi i'r môr mawr.

### Taflu'r lein

Cyn bo hir yr ydym filltir i ffwrdd o'r palmwydd sydd yn tyfu bron hyd at ymyl y môr. Mae Peter yn estyn imi rîl o linyn neilon o nerth dau-gan-pwys, gyda llathen o wifren ddur a phluen fawr, goch a bachyn cymaint ag a welwch mewn siop fwtsiwr.

"Allan ag e', Dad" yw ei orchymyn.

Mae Atara yn gwneud yr un modd yr ochr arall i'r cwch, a thoc mae dau linyn o 50 metren yr un yn llusgo tu ôl i'r cwch, a'r plu yn dawnsio o frig i frig fel pethau byw. Ymhen pum munud teimlaf dynnu cyffrous ar fy lein i.

"Tynnwch y lein i mewn yn llyfn a chyson," yw'r gri, a cheisiaf innau ufuddhau, gan ddirwyn y llinyn yn ôl ar y rîl bren yn ofalus.

"Na! Na!" gweidda Peter, "peidiwch a boddran â hwnna. Tynnwch i mewn law wrth law, a gadewch i'r lein ddolennu yn naturiol i waelod y cwch. Rhwyddach! Cyflymach!"

### Enfys a ddiflannodd

Treiaf ufuddhau a theimlaf y tynnu a'r gwingo cyffrous yn dod yn nes, nes.

"*Rainbow runner* yw e'." ebe Peter, "Byddwch yn ofalus neu fe'i collwch e'. Mae 'u cegau yn feddal iawn."

Mae'r pysgodyn yn awr yn y golwg; bron lathen o gefn gwyrdd tywyll yn ymdoddi i felyn ac yna bol o arian gloyw a bar o las golau ar hyd y ddwy ystlys. Ond ar y feri foment ag yr wy'n paratoi i'w godi o'r dŵr, dyma fo'n ymysgwyd yn rhydd, gan fy ngadael yn flin yn dal y bluen a'r bachyn gwag.

"S'dim ots. Gwell lwc y tro nesa'," ac allan eto â'r bluen a'i bachyn a'r lein.

### Dysgu trin y cledd

Yr ydym wedi bod yn troli eto am uagain munud heb i ddim ddigwydd pan deimlaf blwc sydyn, a hwnnw'n un trwm. Trown at y cyffro mawr yn gledd bys godyn y dŵr hanner can metren i'r starn, ac yn sydyn dyma gwych yn neidio yn glir allan o'r dwr.

"Teraku!" yw'r waedd gan Atara, gan nodi'r ffin neu'r asgell lydan, fel hwyl llong fechan ar gefn y pysgodyn. *Teraku* yw enw'r brodorion ar *sailfish* y Saeson.

"Dyma'ch teracw cyntaf, Dad." meddai Peter, "a'r cyntaf i mi hefyd. Ond mae hwn yn rhy fawr i chi ei drafod. Rhowch eich lein i Atara".

Mae Atara wedi tynnu ei linyn ei hun i mewn yn gyflym, a chyda gair tawel a ffyddiog mae'n ymgymryd â thynnu'r marlin mawr i mewn.

Dan wingo, plymio a neidio, mae'r pysgodyn hardd yn cael ei dynnu yn nes ac yn nes at y cwch. O dro i dro mae'r llinyn neilon yn llosgi rhychau ym mysedd brown Atara pan fydd y teracw yn ceisio dianc, ond bob tro

mae ef yn ei dynnu yn ôl, gan ildio rhai llathenni pan fydd raid, ond byth yn llacio'r tynnu ar y lein.

**Marw ar y môr**

Gwelwn y creadur â'i gefn o las tywyll yn sgleinio yng nglas goleuach y dŵr. Mae'r asgell lydan ar ei gefn yn agor ac yn cau fel ffan enfawr. Mae ei bigyn hir o drwyn yn troi ac yn trosi i geisio cael gwared ar y bachyn sydd fel colyn yn ei boeni.

A dyma fo o'r diwedd yn gwingo yn y dŵr wrth ochr y cwch. Gydag ymdrech orchestol mae Atara yn ei godi o'r dŵr ac i waelod y cwch. Mae Peter yn ei ladd gydag ergyd neu ddwy â phastwn o bren caled. Yn sicr mae'r creadur rhwng saith ac wyth troedfedd o hyd, ac yn ddiweddarach fe gawn ei fod yn pwyso ryw 85 pwys. Teimlaf yn euog o ladd creadur mor hardd, ond mae angen y protîn ar y Gilbertiaid. Sylwaf fel y mae lliwiau llachar y creadur byw yn pylu yn gyflym. Yn awr nid yw ond marlin marw.

**Y llamhidyddion llamsachus**

Allan â'r llinynnau eto, ac yn y man dyma haig o lamhidyddion yn dod i chwarae o gwmpas y cwch. Gwelaf hwynt, sgoroedd ohonynt, yn hyrddio eu hunain tua'r cwch i ymuno yn y chwarae. Maent yn llamu o'r dŵr, yn ddeuoedd ac yn drioedd gyda'i gilydd; mae ambell un yn troi bendramwnwgl yn yr awyr. Mae eu symudiadau i gyd yn gyflym-osgeiddig. Er bod y cwch yn symud yn ffast, maent yn cyd-symud ag ef yn ddiymdrech. Mae llawer ohonynt yn llamu trwy'r dŵr mor agos i ystlys y cwch fel y gallaf roi fy llaw ar eu cefnau yn y dŵr claear. Mynegaf i Peter fy ofn y bydd i un o'r cymdeithion yma gael ei ddal gan ein bachau, ond mae yntau yn fy sicrhau mai anaml iawn y bydd llamhidydd yn cymryd abwyd. Fe â'r chwarae yn ei flaen am gryn filltir of ffordd, nes bod y pe creaduriaid lluniaidd fel pe baent yn blino ar gwmni'r cwch ac yn troi i ffwrdd yn unfryd i chwarae arall.

Does dim pysgodyn yn codi at y plu am beth amser. Yr ydym mewn dŵr garw erbyn hyn, ac ar ôl codi i frig y don mae'r cwch yn disgyn i'r cafn y tu ôl iddi gyda chlep fel pe bai'n syrthio ar goncrit. Edrychaf yn bryderus ar Peter; wedi'r cyfan, dim ond hyn a hyn o straen y gall yr alwminiwm ei ddal. Beth pe bai hem neu ddau yn torri . . .? Ond mae Peter yn wynebu'r don fawr nesaf yn ddigon didaro. Yn wir, mae ar ei draed yn sbïo i'r pellter dros y dyfroedd aflonydd i weld a oes adar y môr yn heidio mewn unrhyw fan arbennig. Mae haid o adar uwchlaw llecyn arbennig yn golygu fod pysgod bychain yn heigio yn agos i'r wyneb yno; a lle mae pysgod bychain yn heigio mae pysgod mawr ysglyfaethus yn eu hymlid a'u llarpio oddi isod.

**Cwmwl o adenydd**

Mae fy stumog erbyn hyn yn teimlo braidd yn anesmwyth. Hoffwn pe bai rhywbeth yn digwydd i gymryd fy meddwl oddiarno. A dyma anghofio'r stumog wachul o ganfod rhyw gyffro anarferol tua hanner milltir i ffwrdd. Mae'r awyr uwchlaw'r llecyn yn llawn o adar swnllyd yn deifio yn barhaus i ddal eu hysglyfaeth. Wrth ein bod yn nesu, gwelaf fod wyneb y môr yn berwi gyda'r pysgod bychain, a thrwch yr adar yn gwneud tô drosto. Yr ydym yn symud o dan len o adar tua'r llecyn cynhyrfus. Ac fel yr ydym yn ei adael tua 50 metren tu ôl inni, gwelaf Atara yn ymateb yn gyflym i blwc ar ei linyn, ac ymhen eiliad dyma blwc ar fy un i hefyd. Yr ydym ein dau yn tynnu bob un ei lein i mewn law dros law. Mae hi'n anodd imi ddal y neilon gwlyb pan fydd y pysgodyn yn rhedeg, a mae'r llinyn yn llithro rhwng fy mysedd. Ond yn raddol mae'r crugyn o lein ddolennog rhwng fy nhraed yn tyfu. Mae Atara eisoes wedi tynnu ei bysgodyn i'r cwch ac yn fuan mae 'mhysgodyn i hefyd yn gwingo ar waelod y bad. Mae pastwn Atara yn rhoi taw ar y gwingo.

"Dau dwna," ebe Peter, "tuag ugain pwys yr un."

Dwywaith eto fe yrr Peter y cwch o dan ganopi'r adar gorffwyll fel y dilynant y cynnwrf gwallgo ar hyd wyneb y môr. A phob tro daw dau bysgodyn twna cigog i mewn i'r ddalfa, pob un ohonynt rhwng 15 ac 20 pwys, a phob un â chrib fel rhes o bigau miniog melyn ar linell ei gefn a'i fol.

"*Yellowfin tuna* ŷn' nhw." meddai Peter

**Adref i'r wledd**

**Ond mae hi'n bryd bellach i droi tuag adref os ydym i gael digon o ddŵr o dan y cwch i groesi ymyl y riff at y rhimyn o draeth cyn bod y trai yn gadael y riff gwastad heb ddŵr arno. Yr ydym yn dal i drolio ar y ffordd adre ac yn ychwanegu barracwda reit fawr at ein helfa.**

**Wrth ddynesu at y lan mae Peter yn rhedeg y cwch i mewn ar frig ton fawr, a chyn fy mod yn sylweddoli hynny, yr ydym yn y dwr bas. Mae Peter yn rhoi taw ar y modur ac yn neidio allan, ac Atara yn ei ddilyn. Cyfarwyddir fi i aros lle rwyf fi tra bo'r ddau arall yn esmwyth-wthio'r cwch llonydd dros y beisddwr i'r traeth. Mae merched teulu Atara wedi gweld y cwch yn dychwelyd a maent yn aros wrth ymyl y dŵr i helpu'r dadlwytho ac i dynnu'r cwch ar ei roler o golfen pandanws i fyny'r banc tywod i'w eisteddle rhwng dwy balmwydden o flaen tŷ Peter.**

**Mae'r marlin mawr i fynd i gegin Ysgol K. G. V. a rhennir y pysgod llai â chymdogion a chyfeillion. Heno fe fydd gwledd yng nghartref Atara; bydd y merched yn pobi pwmpen wedi ei stwffio â physgod mewn ffwrn yn y pridd. Bydd pawb yn yfed** *moi moto* o gneuen werdd y palmwydd a bydd llawenydd a chanu a dawnsio.


# LLWYDDIANT CERDDOROL

**Dymunol iawn oedd clywed am lwyddiant y plant canlynol yn arholiadau Cerdd yr Associated Board, Llundain, Mawrth, 1979:**

1. **Michael Jefferies, Gradd 5 (Clod) Ysgol Gyfun Llanhari.**
2. **Davina Mary Payne, Gradd 2 (Clod) Ysgol y Santes Fair, Caerdydd.**
3. **Geraint Pritchard, Gradd 2 (Clod) Ysgol Bryntaf, Caerdydd.**
4. **Ann Eleri Davies, Gradd 1 Ysgol Bryntaf, Caerdydd.**
5. **Carys Mair Williams, Gradd 1 Ysgol Bryntaf, Caerdydd.**

**Disgyblion Mrs. D.T. Guy, Caerdydd oedd yr uchod i gyd.**

A hoffech chi fod yn berchen ar ran o biano? Mae Capel Minny Street wedi prynu piano newydd sbon a mae Mr. Alun Davies a Mr. Brian Evans wedi'i rannu'n ddarnau ac yn eu cynnig i unrhyw un a'u myn. Am bunt fe gewch brynu nodyn gwyn neu un du am hanner can ceiniog ychwanegol. Mae Mr. Wat Jones eisoes wedi talu £5 am yr "C" canol a'r pedalau wedi mynd am £5 yr un hefyd. Mae 'na ddigon o ddarnau ar ôl eto. Os oes unrhyw un a hoffai gyfrannu tuag at y cyfanswm o £750, cysylltwch ag un o'r ddau uchod.




# *CYFLE ARALL I DDYSGU'R GYMRAEG*

**WLPAN NESA'R GANOLFAN**

Cynhelir yr Wlpan nesa o Fedi'r 10fed tan ddechrau Rhagfyr ar bum noson yr wythnos o 7-9.15. Bydd hanner tymor yn y canol o 22-26 o Hydref. Y gost fydd £25. Bydd cyfweliadau ar gyfer unrhyw un sy am gael ei ystyried i ddod ar y Cwrs yng Nghanolfan yr Urdd ar nos Fawrth y 12fed o Fehefin rhwng 6.30-8.30.

**Os gwyddoch am rywun sy â diddordeb rhowch wybod iddyn nhw am y Noson Gyfweliad os gwelwch yn dda.**

**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**

## Gofalwyr

Gwahoddir ceisiadau am ofalwyr amser llawn. Cyflog sylfaenol o £53.38 — £56.12 (i'w adolygu). Posiblrwydd o gymorthdal o dan y Cynllun Newid Swyddi. Tâl ychwanegol am oriau goramser ac hefyd am weithio shifftiau. Lifrau addas i'r swydd. Cynllun blwyd-dâl cyfrannol. 18 niwrnod o wyliau blynyddol. Manylion pellach a ffurflenni cais oddiwrth yr Is-Ysgrifennydd, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB.

# Yr ŵyl ddrama yn y ddinas

**Yn Theatr yr Arena, Y Sherman ar nos Lun, Ebrill 30, a nos Fawrth a nos Fercher, y cyntaf a'r ail o Fai, cynhaliwyd Gŵyl Ddrama Addoldai'r ddinas.**

**Mae hanes diddorol i'r ŵyl hon.**

**Mae'n bedair oed erbyn hyn, ond nid yw wedi cael ei chynnal yn flynyddol am nifer o resymau. Un o'r rhesymau yw'r ffaith i'r Eisteddfod Genedlaethol amharu arni. Rydym yn hoff iawn o ddweud, yn gam neu'n gymwys, fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod â llawer o ddiwylliant yn ei sgîl i ardal, ond dydy hyn ddim yn wir bob tro, chwaith. Ac un o'r pethau a ddioddefodd yng Nghaerdydd oherwydd y llu pwyllgorau steddfod gyda'r un rhai yn gwneud pob peth, oedd yr ŵyl, ac mae'n dda gan Y Dinesydd weld ei hatgyfodi o dan gadeiryddiaeth Y Parchedig Raymond Williams ac Ysgrifenyddiaeth Mr Hywel Lloyd Evans.**

A rhaid rhoi clod i'r Eisteddfod am roi hwb iddi'r tro hwn, Eisteddfod Caernarfon — a nythaid ddrama lewyrchus Heol Y Crwys. Wedi codi i'r uchelfannau yn Eisteddfod Caerdydd, roedden nhw am fentro gydag Arth i fro'r Eryrod, hynny yw, gyda drama enwog Chekov; ac fel y gwyddoch, cyn mentro mor bell, rhaid yw cynnal rhagbrofion. A heb drafferth o gwbl, cododd y capel noson o ddramâu, a'u hunig broblem yn awr oedd dod o hyd i le i berfformio. Aethpwyd i weld Mr Axworthy yn Y Sherman, ac fe ddywedodd y gellid cael Yr Arena ar Ebrill 30, ac roedd pawb, i bob golwg, yn hapus.

Ond gall bywyd, hefyd, fod yn ddrama!

Ar ôl trefnu'r noson, darganfuwyd fod dramâu hefyd gan Y Tabernacl, a bod Salem Canton yn dioddef oddi wrth glwy'r Thesbiaid a bod eglwys Dewi Sant yn awyddus i godi cwmni. Ac mewn byr amser, fe dyfodd yr un noson yn dair. Tair noson ag wyth o ddramâu — neu, efallai naw, gyda lwc.

Aeth pethau o chwith eto, er hynny. Un o sêr Yr Arth wedi trefnu i hwylio o Gymru ar y dydd olaf o Ebrill a dyna Heol Y Crwys yn gorfod trefnu noson arall ar gyfer rhagbrofion y steddfod.

Ond er i ambell ddrama "ddisgyn ar fin y ffordd" aeth y lleill ymlaen o nerth i nerth — digon i gynnal gŵyl ddrama yn Yr Arena. Ac nid ar chwarae bach y gall pob addoldy godi cwmni drama mewn lle fel Caerdydd, gyda phawb mor brysur, ac amser ymarfer mor brin. Ond edrychid ymlaen at wledd, ac ni siomwyd caredigion y ddrama, oherwydd y cymysgiad diddorol o ddramâu ac o ddulliau actio.

Cafodd nifer ohonom ein cario'n ôl gyda'r blynyddoedd i ddyddiau dramâu hwyliog Y Festri gyda drama fel Y Practis (Salem Canton), a daeth pobl ifanc Y Tabernacl i'n sicrhau am y dyfodol gyda'u perfformio hyfryd yn Coffi am Un ar ddeg — drama gyda phob un mor ifanc â'i gilydd, yn yr ysbryd, a dyna sy'n bwysig. Rhaid llongyfarch Y Tabernacl hefyd am fentro ar Y Ddamwain o dan amgylchiadau digon anffodus. Rhai o'r cast yn wael ac yn methu actio'u rhannau, a hynny ar y funud olaf. Cofiwch, ystyrir actio a chyfansoddi drama **ar yr un pryd** yn gryn gamp y dyddiau hyn! Cynhyrchiad da, ac ystyried y problemau.

Rhwng Dau a Dwy oedd arlwy Dewi Sant, drama ysgafn, ddiniwed a gafodd berfformiad teilwng gan y cwmni. Roedd Man Du, Man Draw, yn ymdrin â thema mwy tyngedfennol a rhoes gyfle i sawl un ddangos dawn newydd sbon. Capel Y Crwys oedd piau'r cynhyrchiad hwyliog yma hefyd, a nhw a roes un o ddramâu poblogaidd W. S. Jones i ni, sef Y Wraig. Yma, roedd bwlch mawr mewn oedran rhwng yr henaf a'r ieuengaf, ond gwnaeth pob un yma eto ei waith gyda graen.

Byddai'r Dinesydd yn falch dweud fod yr Arena'n llawn bob nos ar gyfer y perfformiadau, ond nid felly'r oedd hi. A drama bywyd oedd yn gyfrifol am lawer o hyn.

Heol y Crwys roes gychwyn ar bethau drwy fod yn awyddus i gael theatr go iawn ar gyfer Yr Arth, ond yn y diwedd, bu'n rhaid iddyn nhw berfformio yn y festri y Sadwrn cyn yr ŵyl, a chan iddyn nhw drefnu noson o ddramâu, collwyd llawer o gynulleidfa'r Llun. Roedd Y Tab hefyd wedi rhoi noson o'u dramâu nhw ac roedd hyn yn bownd i filwrio yn erbyn yr ŵyl.

Ond mae'r flwyddyn nesaf heb ei chychwyn, a gobaith Y Dinesydd yw y bydd yr ŵyl yn tyfu o nerth i nerth.

Gyda llaw, fu gohebydd Y Dinesydd ddim yn y perfformiadau nos Fercher, ac ni all ddweud dim amdanynt. Ni chafodd ei fysedd ar raglen, chwaith, ac o'r herwydd, mae'n dymuno "enwi pawb drwy beidio ag enwi neb" — dim ond estyn diolch i'r holl addoldai am nosau hwyliog o ddramâu.

# GŴYL IFAN 1979 YN NANTGARW



**Unwaith eto daw'r haf yn agos. Y rheiny ohonoch na wyddoch rai o hen arferiadau'r tymor, darllenwch lyfr Trefor M. Owen ar arferiadau'r Cymry. Nid wyf yn orsicr ohonynt fy hun ond er hyn erys rhai ffeithiau dibwys yn fy nghôf.**

Roedd yr hen Gymry'n arfer bwyta pwdin Canol Haf. Os gŵyr rhywun am y rysáit, mi fyddwn yn ddiolchgar o gael copi. Cynnwyd y tanau 'Beltane' a gyrrwyd y gwartheg drostynt neu ryngddynt er mwyn 'lladd afiechyd' a gofalu am ffrwythlondeb y cynhaeaf. Mae'n siwr bod y mwg yn lladd y clêr! Codwyd y Pawl Haf mewn nifer o bentrefi'r Fro. Ym mhentref Gwenfô roedd yr hen bawl yn un sblennydd iawn gyda cheiliog aur ar ei ben a holl ieuenctid yr ardal yn chwyrlio o'i gwmpas i gân y ffidil a'r delyn. Amser hapus oedd yr haf; er bod y gwaith yn galed ac yn hir, roedd yr hau wedi gorffen a'r medi heb ddechrau, y nosweithiau'n hir a'r tes yn fwyn. Rhaid cofio hefyd bod y dyddiau gŵyl ryw bythefnos yn hwyrach na'n gwyliau ni oherwydd anghysondebau newid y calendr. Felly canol haf go iawn oedd Gŵyl Ifan ac mi roedd Mai'r cynta yn agosach at y tywydd braf nag y mae heddiw.

Daw hyn â fi yn agosach at fy nghynefin, Gŵyl Ifan. Ioan Sant yw nawdd sant y ddawns werin. Mae'r rheswm yn amlwg er mae'n bur debyg nad Morfa Rhuddlan oedd Salome yn ei pherfformio ger bron Herod. Mae ei ddygwyl yn syrthio ar y 23ain o Fehefin, ganol haf, ac yn amryw o wledydd y byd cynhelir gwyliau i ddathlu'r achlysur. Gan amla gwyliau o ddawnsio oedd y rhain, y tywydd a'r traddodiad yn cyd-redeg mae'n debyg.

Ers nifer o flynyddoedd bellach mae yna ŵyl o ddawnsio wedi digwydd yng Nghaerdydd a'r Fro tua'r adeg yma o'r flwyddyn. Ar y dechrau torrwyd y gwys gan Ŵyl Haf Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, ond symudodd yr ŵyl honno i dir mwy ffrwythlon gan adael y braenar i Gwmni Dawns Werin yr Aelwyd i'w hau a'i fedi. Plannwyd yr hadau ryw dair blynedd yn ôl ac yn awr mae'r cynhaeaf yn llawn. Eleni ar y 23ain o Fehefin daw rhyw ddau gant o ddawnswyr gwerin Cymru i ddathlu Gŵyl Ifan yn Nantgarw. Mae'n bur debyg mai hon yw'r ŵyl fwyaf o'i math yng Nghymru erbyn hyn. Gŵyl i ddawnswyr yw, o bob safon; nid oes rhaid i unrhyw un boeni am gywirdeb llinellau na chysondeb stepio, os yw'r dôn yn denu a'r ysbryd yn llawen cewch groeso gan y criw i hercio trwy 'Hoffedd' a rhedeg trwy 'Rali'. Nid oes cystadleuaeth heblaw yr un am weld pwy fedrith fwynhau orau. Croeso i bawb i bentre Nantgarw am 3.30 y prynhawn ac hefyd, mae ychydig o docynnau ar ôl am y wledd a'r daplas yng Nghastell Caerffili, £3.30 yr un, a 50c am y daplas yn unig. Os oes diddordeb, dewch i gysylltiad ar fyrder ag Anne S Davies, 159 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Pontcanna, Caerdydd 36771, neu unrhyw aelod o Gwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd.

Ar hyfryd ddydd Gŵyl Ifan
Daw'r haul a'i wên i'r gyrchfan
Lle cwrddyd ienctid ystwyth, llon
Yn don o symud diddan.

Dewch oll i'r pentre garw,
Nid yw'r dawnsfeydd yn farw,
Cewch weled eto'n hirddydd haf
Mor braf yw hwyl Nantgarw.

**Rhodri Jones**

# COLOFN Shân Emlyn ... yn ôl o BATAGONIA

**Wel "daeth i ben deithio byd." Dyma fi'n ôl ar ôl f'ail ymweliad â Phatagonia. Yr un oedd y croeso twymgalon y tro yma — a'r wefr hefyd — y wefr o dreulio tair wythnos wyth mil o filltiroedd o Gymru a threulio pob diwrnod trwy gyfrwng y Gymraeg — anhygoel! I wneud cyfiawnder â hynt a helynt y daith byddai raid neilltuo rhifyn arbennig o'r Dinesydd i mi, felly rhaid ymatal a dethol rhai o uchafbwyntiau'r gwyliau. Mae'n rhaid imi gofio hefyd nad "yw pawb yn gwirioni'r un fath"!**

Cystal imi gyfaddef fy mod wedi gwirioni'n llwyr efo rhamant hanes Y Wladfa, ac yn fwy fyth gyda'r bobol hyn sydd, er yn Archentwyr erbyn hyn, yn dal i lynu'n glos wrth Gymru. Pan "gyll y call fe gyll ymhell" a dyna fy hanes i. Sut mae trosglwyddo'r wefr yma i ddarllenwyr Y Dinesydd, wn i ddim — ond dyma roi cynnig arni.

Un o uchafbwyntiau'r daith oedd cael ail ymweld â Modryb Maggie. Prin y dychmygais bedair blynedd yn ôl y cawn gyfle i fwynhau ei chwmni'r eildro. Mae hi'n byw mewn tyddyn dinod yn Nhrevelin wrth odre'r Andes fawr ac wedi dathlu'i phenblwydd yn gant ac un oed Chwefror eleni. Mae hi'n dal ar 'i fyw phen 'i hun, yn crasu bara bob wythnos, yn golchi, llnau a smwddio. Dyma'r person mwyaf anhygoel y ces i'r fraint o fod yn ei chwmni. Bu'n adrodd hanes y Gwladfawyr cynnar am dros awr a hanner a'i chôf a'i pharabl yn glir fel grisial. Soniai am daith yr arloeswyr yn eu wageni yn croesi pedwar can milltir o baith o Ddyffryn Camwy i chwilio am diroedd brasach, ac yn disgrifio'r wefr o gyrraedd Cwm Hyfryd: "Roedd y lle yma fel gardd," meddai. Cefais ei hanes yn helpu llu o famau ieuainc i roi genedigaeth i blant ac fel na fu iddi golli'r un fam, na'r un plentyn. "Wnes i mohono fy hun cofiwch; y Fo oedd yn fy helpu". Cymaint ei ffydd bersonol nes gwneud i mi gywilyddio f'amheuon tila fy hun. Yn ei chwmni roedd rhywun yn profi gwyleidd-dra pur. Er ei bod wedi cael bywyd caled iawn, ac yn dduwiol iawn, roedd hiwmor a direidi yn rhan ohoni hefyd: "Wn i ddim be fasa Nhad a Mam yn ddeud tasa nhw'n gwybod bod Maggie wedi byw mor hen". "Yda chi am fynd i'r nefoedd?", meddwn inna. "Tydwi ddim yn barod i farw — tydwi ddim digon aeddfed eto"!

Ar nos Sul y Pasg bum mewn Cymanfa Ganu yng nghapel Bethel, Gaiman — y capel yn orlawn a'r haul yn tywynnu'n gynnes o'r tu allan. Môr o ganu a'r cyfan yn hyfryd o anffurfiol — lleisiau'n galw allan o'r gynulleidfa am gael canu hoff emyn. Noson arall — Swper Croeso yn Nhrelew ac Egrwn Williams yn codi ar ei draed i'n croesawu ac yn traethu'n goeth am ddyfodol yr iaith yn ein hannog i fynd "â neges draw i'r Hen Wlad; ydy mae'r iaith yn marw yma, ond mae hynny'n anochel — Archentwyr o waed Cymraeg yda ni. Mae hi'n chwith i lawer ohonom weld yr iaith yn edwino — ond mae'ch brwydyr chi yn yr Hen Wlad lawer pwysicach, ac mi ryda ni yma yn ymfalchïo yn nycnwch pobol ifanc Cymru yn mynnu hawliau a statws i'r iaith." Roedd hi'n ysbrydoliaeth i gael bod yng nghwmni'r bobol yma.

Ardal eang yw Bethesda ac fe drefnwyd tê croeso inni yn y capel. Wedi ymweld â nifer o leoedd drwy'r dydd, dyma gyrraedd yno ddwyawr yn hwyr. Roedd hi'n nosi a'r bws a'n cludai yn siglo o ochor i ochor gan erwinder y tir a diffyg ffordd — rhedai ysgyfarnogod o'n blaenau a gwelsom gip ar wanacos ac estrys. O'r diwedd gweld golau — siap ffenest capel yn dod i'r golwg a thwr o Wladfawyr yn ymgomio'r tu allan yn barod i'n croesawu. Cafwyd tê blasus ac roedd disgwyl mawr am adloniant wedyn — rhyw gymysgwch o Noson Lawen a Chymanfa.

Roeddwn wedi clywed bod 'na hen wraig gantoed yn byw yn yr ardal, a rhwng y tê a'r adloniant bu ei mab yn ddigon caredig i fynd â mi draw i'w gartre i gyfarfod Mrs. Mabel Williams. Dyna brofiad syn arall — hen wraig gant oed a adawodd Gaergwrle yn bedair oed ac na chafodd gyfle i ddychwelyd i Gymru, yn sôn am ei bywyd yn magu nythaid o blant a'r ymdrech galed a fu i gael bywoliaeth o dir anhydrin y paith. Cyfaddefodd nad oedd yn hoff o'r iaith "Spanis — dwi'n gallu fawr — catsio dipyn gan y plant ond yn ei siarad o rywsut rywsut. — Na, Cymraeg i mi bob amser."

Ia, gyda'r henoed y mae'r rhamant, a hwy sy'n glynu'n glos wrth Gymru. Cefais gipolwg ar fywyd y Cymry'n ymdoddi i fywyd y wlad yn Eisteddfod Trevelin a theimlo blas y cynfyd wrth deithio efo Côr y Gaiman mewn bws ar draws y paith. Taith o bedwar can milltir o anialdir drwy Ddôl y Plu, Yr Allorau a Rhyd yr Indiaid. D'allwn i lai na chymharu taith o ddeng awr mewn bws â thaith tri mis Modryb Maggie mewn wagen. Roedd dwy ran o dair o weithgareddau'r Eisteddfod mewn Sbaeneg — a thraean yn y Gymraeg. Roedd y traean Cymraeg yn swynol o hen ffasiwn — "Y Bwthyn ar y Bryn", "Deio Bach" ac emynau wedi'u gosod i bedwarawdau. Er tristed marw'r iaith, marw mewn gwlad estron y mae hi a d'allwn i lai nag ymfalchïo yn y Gwladfawyr wrth weld parti bach o Indiaid o Maiten yn cystadlu, a theimlo bod gan y Cymry ran fawr yn niwylliio'r brodorion a, thrwy hynny, gyfrannu tuag at wareiddio'r gornel bell hon o'r byd.

Wedi bod yn ôl mae 'na gymysgwch o lawenydd gwefreiddiol a thristwch arswydus. Llawenydd o fod wedi cael bod yng nghwmni'r Gwladfawyr a deall anhawster llawer ohonynt i berthyn yn gyfangwbl i'r naill wlad neu'r llall. Tristwch o weld y Gymraeg yn diflannu. Wedi dod yn ôl adre, anodd crisialu fy nheimladau, caf hi'n anodd i ddod â'n meddwl a'm calon yn ôl yma. Treuliaf oriau yn gwrando ar y tapiau a ddeuais efo mi — ail fyw y sgwrs efo Modryb Maggie, y canu yn y Cymanfaoedd, y cystadlu yn yr Eisteddfod a cheisio casglu argraffiadau sy'n berthnasol i'n bywyd ni yma. Yn sicir, yr argraff fwya arswydus yw sylweddoli y gall tynged yr iaith yn y Wladfa fod yn rhagflas o'r hyn all ddigwydd yma. Mae gwers inni hefyd yng ngharedigrwydd a hawddgarwch y bobol; yn y diffyg diddordeb sydd gan lawer yno mewn pethau materol, a'r pwys y maent yn ei roi ar fywyd teulu.

Bum yn meddwl llawer yno am Eluned Morgan, a'i gwaith a'i sêl dros yr iaith a chrefydd — yn enwedig pan ges gyfle i gerdded glannau Nant Irfon y soniai gymaint amdani yn "Dringo'r Andes." Byddai'n chwith ganddi weld cyflwr yr iaith yno heddiw. Byw breuddwyd nad oedd gobaith ei gwireddu a wnaeth. Ai am fy mod innau'n "freuddwydiwr ffôl" y mae rhamant y Wladfa'n cydio cymaint ynof? Beth fydd tynged fy mreuddwyd i am barhad yr iaith yma tybed?

"Yn eu breuddwyd 'roedd pob awyddu
Heb waed na phoen, eu bywyd yn ffynnu;
Agor maes heb un lord i'w gormesu:
O dlodi afiach cai'r genedl dyfu.
A'r Gymraeg ei mawrygu — heb air croes
Ni ddeuai loes wrth addoli Iesu."

(R. Bryn Williams).



# Taith yng ngwlad Canaan

**Pan oedd fy chwaer yn ferch fach, dewiśwyd hi i ganu mewn Cymanfa Blant ym Mhontypridd, a chyfansoddwyd cân newydd ar ei chyfer gan John Jenkins, Bad Uchaf (a ddaeth yn dad-yng-nghyfraith i mi ymhen blynydd-oedd wedyn) ar eiriau o waith y Parchedig David Jones, ein gweinidog ni ym Methel, Cilfynydd, ar y pryd. Dyma bennill cyntaf y gân honno:**

*"Fe garwn innau weld y môr*
*Lle rhodiai'r Iesu gynt,*
*A mynd mewn llong o lan i lan*
*A'r hwyl dan chwifio'r gwynt;*
*I Gapernaum yr hwyliai'r llong,*
*Tua'r bryniau ger y llyn,*
*I weld y fan y bu ei law*
*Yn porthi'r miloedd syn."*

Ychydig a feddyliais i y pryd hwnnw y deuai'r dymuniad yn ffaith yn fy hanes i, y cawn y cyfle ryw ddiwrnod i ymdrochi ym Môr Galilea, i groesi'r llyn mewn llong — nid llong hwyliau, mae'n siwr — o Diberias i Gapernaum, ac i ymweld ag Eglwys y Lluosogi a godwyd i gofio gwyrth porthi'r pum mil â phum torth a dau bysgodyn . . . a geiriau'r gân yn fyw iawn yn fy nghof.

O ganol oerni, rhew ac eira Cymru ganol Ionawr eleni aeth bron ddeugain ohonom i dreulio wythnos yng ngwlad Israel — a gorfod disgwyl ym maes awyr Caerdydd yn y Rhws i'r awyren gael ei dadrewi cyn y gallem gychwyn ar ein taith! Mor wahanol oedd y tywydd yn Jeriwsalem — haul braf a hin deg yn ystod y dydd ar hyd yr amser, ond yn oeri tipyn ar ôl i'r haul fachlud, a hynny'n gynnar yr adeg yma o'r flwyddyn.

Roedd tua hanner y cwmni'n aelodau yn Eglwys Heol-y-Crwys, gyda chyfeillion o'r de a'r gogledd — ac un o Birmingham — pawb ar yr un donfedd, yn edrych ymlaen at bererindod, dan arweiniad y Parchedig W. I. Cynwil Williams, yn y wlad "lle rhodiai'r Iesu gynt."

Fe wyddem ein bod yn mynd i wlad lle byddai hanes a thraddodiad yn golygu llawer i'r trigolion, ac wrth gyrraedd y gwesty a gweld y mezzuzah ar bostyn drws bob ystafell wely cawsom ein hatgoffa o orchymyn yr Arglwydd Dduw i genedl Israel gynt — "Bydded y geiriau hyn, yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti, yn dy galon . . . ac ysgrifenna hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth."

Mae'n siŵr gen i y bydd rhai yn ymweld â gwlad Israel na wyddan nhw'r gwahaniaeth rhwng Bethlehem a Barcelona, ond roedd y profiad hwn yn fwy na gwyliau i ni, a bydd yr atgofion yn aros gyda ni ar hyd ein hoes.

Cofio dechrau'r bererindod ym Methlehem a chanu emynau yn Eglwys y Natifiti yno, yn y groto lle tybir i'r Baban Iesu gael ei eni. Pwy a ŵyr i sicrwydd ai dyma'r union fan? Digon i ni yno, ac mewn mannau cyffelyb ar hyd y daith, oedd cofio mai yn y fath le y bu'r digwyddiad hwn a'r digwyddiad arall, os nad yn yr union fan honno.

Cofio am y daith gerdded dros gefn Mynydd Yr Olewydd, o Fethania heibio i Fethphage, ac i lawr i Arth Gethsemane. Eistedd yn dawel yno yn Eglwys yr Holl Genhedloedd, a'r Parchedig Cynwil Williams, yn hollol ddirybydd, yn rhannu bara ac yn gorchymyn i ni, "Cymerwch, bwytewch," ac yna'r gwin o gwpan o goed olewydd — "Yfwch bawb o hwn." Fydd yr un gwasanaeth cymun yr un fath i ni byth eto, ni oedd yno'r prynhawn hwnnw yn "cofio'r cwpan yng Ngethsemane ardd."

Yna cyfarfod â'r lleian annwyl, y Chwaer Theresa Alphonse, a fu tan fis Gorffennaf diwethaf yn athrawes yn ysgol Lady Mary yma yng Nghaerdydd, a hithau'n ein tywys i'w Chwfaint, i Eglwys y Fflangellu, i Eglwys yr Ecce Homo ac i'r Lithostrotos — y palmant lle cyflwynodd Peilat yr iesu i'r bobl gan ddweud, "Wele'r dyn." Canasom emyn yno, ac fe gofiwn weld llanc o Sais, a oedd wedi ymuno â ni i wrando'r Chwaer yn esbonio, yn crio a'r dagrau'n powlio i lawr dros ei farf du. Yna aeth y lleian â ni ar hyd y Via Dolorosa, gan sôn am wahanol Orsafoedd y Groes sydd mor bwysig i'r Pabyddion, ac i Eglwys y Bedd Sanctaidd lle, yn ôl un traddodiad, yr oedd Golgotha.

Cofio Mur yr Wylofain; cofio tynnu'n sgidiau cyn cael mynd i mewn i Gromen y Graig — y graig, meddir, lle roedd Abraham yn barod i offrymu ei fab nes i angel atal ei law, ac, yn ôl y Moslemiaid, o le yr esgynnodd Muhamad i'r nefoedd gan adael ôl ei droed yn y garreg.

Cofio'r daith ar hyd dyffryn Iorddonen i Nasareth, a'r Eglwys fodern yno a godwyd i gofio'r angel yn dweud wrth Mair ei bod wedi cael ffafr gyda Duw ac mai hi fyddai mam y Baban Iesu "a fydd mawr ac a elwir yn Fab y Goruchaf."

Aeth rhai ohonom i'r gogledd, drwy Ddyffryn Esdraelon, i ymweld â kibbutz Biet Oren ar Fynydd Carmel, a chael gweld porthladd Haifa. Roedd yn amlwg fod yr Iddewon yn caru'u gwlad yn angerddol, ac yn barod i weithio'n galed ac i ymladd drosti — ac, os bydd angen, i farw drosti. Allai dyn ddim llai nag edmygu eu hymdrechion a'r holl waith a wnaed yno ers iddyn nhw gael y wlad i gyd yn ôl yn eu meddiant ar ddiwedd y Rhyfel Chwe Diwrnod ym Mehefin 1967.

Yna, ar y diwrnod llawn olaf, aethom i gyd i'r de i'r anialwch, heibio i Jericho, ar hyd glan y Môr Marw, a dringo i gaer anferth Masada, noddfa olaf Iddewon y parthau hynny yn eu brwydr yn erbyn nerth Rhufain. A bydd rhai o'r cwmni'n cofio plastro'u cyrff â mwd du, iachus (?), cyn mynd i nofio ar wyneb dŵr hallt y Môr Marw!

Ac fe gofiwn i gyd y bore olaf un, cyn troi am adre, yng Ngardd y Bedd Gwag, a chlywed bom terfysgwyr yn ffrwydro, a chanu'n hemyn olaf, emyn mawr Elis Wyn o Wyrfai, i'n hatgoffa'n hunain mai bedd gwag yn wir oedd yno, canys "daeth ein Iesu mawr yn rhydd" —

"Cydlawenhaed pob enaid trist
Y dedwydd ddydd y cododd
Crist."

Ar hyd y bererindod cawsom arweiniad doeth ac effeithiol y Parchedig Cynwil Williams — a mawr yw ein dyled a'n diolch iddo. Roedd wedi paratoi yn fanwl, ac roedd ei esboniadau a'i anerchiadau byrion ym mhob man ar hyd y daith o gymorth mawr i ni gael gwerthfawrogi cymaint oedd ein braint, ac mae da oedd i ni fod yno.

Fe fyddai angen sawl rhifyn o'r *Dinesydd* i sôn am y cyfan a welsom ac a glywsom — dydw'i ddim wedi dweud dim am ein hymweliad â'r Oruwch Ystafell, nac am Eglwys y Pater Noster y cafodd rhai o'r cwmni gyfle i'w gweld, nac am y gwasanaeth y buom ynddo ar fore Sul a wnaeth i ni sylweddoli cymaint yw braint y mwyafrif ohonom o gael gwrando pregethu Cymraeg bob Sul! Fe gawn gyfle, gobeithio, i ail-fyw rhai o'r munudau bythgofiadwy hyn yn nes ymlaen: roedd Gareth Lloyd-Williams o'r BBC gyda ni, yn recordio'r canu a'r egluro, ac argraffiadau hwn a'r llall, ar gyfer rhaglen yn y gyfres "Llwyfan" a ddarlledir tua'r Pasg.

**D. Gwyn Jones**

---

**DECHRAU GWELLA**

Mae'n dda gyda ni glywed fod Mrs Tegwen Evans, Llys-faen, gryn dipyn yn well ar ôl cael triniaeth mewn ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn iddi hi adferiad llwyr yn fuan.

**NEWID AELWYD**

Deallwn fod Alan a Gwyneth Torjussen wedi newid aelwyd. Maen nhw a'u dau blentyn wedi cartrefu erbyn hyn yn Heol Wingfield. Mae Alan yn gweithio gyda chwmni HTV.

**NEWID BYD**

Ein llongyfarchiadau i Alan Jobbins, Pennaeth Adran Adfer ysgol Howardian ar ei benodiad i swydd bwysig yn Ne Powys. Fe fydd yn flin gennym ei golli ef a'i deulu o Gaerdydd, ond prin y gellir meddwl am le gwell i fyw ynddo na chylch Powys.

# YN RHIWBEINA

**ADRAN YR URDD**

Fe'i cynhelir yng Nghlwb y Recreation yn Rhiwbeina bob nos Lun o 5.30 ymlaen dan arweiniad Bob a Margaret Roberts, Eiryl Walters a Gwilym Roberts. Daw dau ddwsin o blant rhwng 9—11 oed ynghyd bob wythnos i fwynhau nosweithiau o chwaraeon a chwisiau o bob math. Yn ystod yr Haf bydd yr Adran yn symud allan i'r awyr agored gan grwydro'r parciau lleol megis Parc Caedelyn ac yn mynd i ben y Wenallt i gael Helfa Drysor ac ati. Uchafbwynt y flwyddyn ydy'r Daith Fws ar y cyd gydag Adran yr Urdd, Gwaelod y Garth, i lefydd fel y Barri a Pharc Porthceri.

**CYLCH MEITHRIN**

Cynhelir Ffair Haf Flynyddol y Cylch ar bnawn Sadwrn y 9fed o Fehefin yn y Neuadd Goffa, Lôn Ucha am 2.30. Bydd stondinau amrywiol a chyfle i gael paned a sgwrs. Estynnir croeso cynnes i bawb bicio draw i Riwbeina ar y diwrnod hwnnw. Dim ond unarddeg o blant sy yn y Cylch ar hyn o bryd a felly mae'n bwysig codi arian i ofalu na fyddwn yn mynd i ddyled. *Cylch Rhiwbeina ydy'r ail hyna yn y ddinas. Yn wir ym 1980 byddwn yn dathlu 21ain penblwydd y Cylch.* Mrs Mary Pryce ydy'r athrawes ac mae'r Cylch ar agor bob bore'r wythnos o 9-12. Cynhaliwyd Bore agored yn y Cylch yn ystod yr Ŵyl Feithrin a threfnwyd arddangosfa o luniau a hanes y Cylch yn y llyfrgell leol.

# -C.R.B.-

**Fe welwch yn y rhifyn hwn i Gymdeithas Rhieni Bryntaf gael llwyddiant mawr yn eu hymdrechion i gadw drysau Ysgolion Cymraeg Caerdydd yn agored led y pen i blant y ddinas gael addysg Gymraeg ynddynt. Haeddant eu llongyfarch yn gynnes ar y gwaith godidog a wnaethant. Mae'n siwr bod eu diolch yn fawr i'w Llywydd, Mr. Glyn Jones, am ei arweiniad, ond nawr, daeth ei flwyddyn fel Llywydd i ben, ac fe'i dilynir yn y Swydd gan yr Is -lywydd ar hyn o bryd, Dr. Caryl Davies, hithau yn frwd dros yr iaith. Bydded i'r ymdrech barhau.**

# MANION O'R MYNYDD BYCHAN

## Y Dr Ifan yn bwrw golwg dros bethau yn yr ysbyty

—Hynod o ddiddorol fel ma pobol yn moyn pleidleisio gyment y dyddie 'ma. Troi màs unwaith bob pedwar gwynt, a rhoi pleidlais dros Mr. Gladstone — dyna o'dd bia hi slawer dydd. Ond 'nawr — 'smo'r Dr. Ifan yn gwpod beth ma'r pethe ifanc 'ma'n trio' wneud.

— Pleidleisio'n yr Ysgol Feddygol yr wythnos o'r bla'n i ethol swyddogion i'r myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf. 'Nawr whare teg, y mae'r Dr. Ifan yn gwpod bod 'na eithafwyr ifanc beutu'r lle y dyddie hyn, ond — pam ma'n nhw wedi ethol pwyllgor sy bron iawn yn Gymry i gyd? 'Welsh Nats' neu rwbeth ŷn nhw? Rhwng Jeff Thomas yn Drysorydd, Alun Owen Griffiths yn Ysgrifennydd, Gerald Thomas yn Drefnydd Gweithgareddau, a David Cassidy yn Swyddog y Cymdeithasau, 'dos dim un Sais ar y pwyllgor newydd. A dim ond dwy Sisnes, hefyd — hyd yn o'd os taw Llywydd ac Is-lywydd ŷn nhw. A 'smo'r rheiny'n hollol uniaith whaith; ma'r Dr. Ifan yn cofio Elizabeth, pwy dro, yn rhifo lan i ddeg yn y Gymrâg, er mwyn hwyl, a ma' si obeutu i Helen whilo am Gwilym Roberts lawr tua'r Aelwyd beth amser yn ôl; — a nid 'beutu gwersi Swahili whaith. Pwy a ŵyr na fydd hi ddim yn hir cyn bod pobol yn sylweddoli bod Ysgol Feddygol Cymru yn gyment rhan o Brifysgol Cymru ag y ma Coleg Bangor?

— Wrth gwrs, ro'dd rhaid i'r myfyrwyr gael 'lecsiwn ne rwbeth; neu 'smo'r Dr. Ifan yn gwpod pwy mor hir y bysen nhw wedi dathlu buddugoliaeth ddiweddar eu tîm rygbi. Fe gawson nhw 24 tîm saith-bob-ochor, o holl ysgolion meddygol Prydain, lawr i Gaerdydd am benŵthnos, a'u trechu nhw i gyd am y drydedd flwyddyn yn olynol, a felly ennill cwpan i'w gadw am byth. Ma'n nhw'n gweud bod hyn yn rhwbeth gwerth ei dathlu. Ro'dd y Dr. Ifan yn meddwl y byse wharaewyr o Gymry yn c'meryd y peth bron yn ganiataol.

— Rhagor o bleidleisio'n ddiweddar: Cymdeithas Gymrâg yr Ysgol Feddygol yn ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesa. Wel, 'smo'r Dr. Ifan yn gwpod, nag yw wir. Gogleddwyr i gyd yw'r swyddogion newydd: Gareth Llewelyn yn gadeirydd, Siân Owen yn ysgrifennydd: ac Ann Evans yn drysorydd. Y peth cyntaf ar eu rhaglen fydd darlith feddygol gan y Dr. Geraint Roberts (ar Fai 16ed); a ma' sôn am ryw barti ar y tra'th cyn bo hir. Os bydd y rhain hanner cystal â chino'r Gymdeithas yr aeth y Dr. Ifan iddi'n ddiweddar, byddan nhw'n llwyddiannau ysgubol.

— Un o'r bobl welodd y Dr. Ifan ef yn y gino honno oedd y Dr. Dewi Evans, o adran Iechyd Plant yr Ysbyty. Synnu braidd a wna'th y Dr. Ifan, achos fyse fe ddim wedi meddwl bod gyda'r hen Ddewi ddigon o amser y dyddie 'ma hyd yn o'd i lyncu brechdan. Ma' cael cyment ag un papur bob pedwar gwynt yn y British Medical Journal — y cylchgrawn meddygol ucha'i enw ym Mhrydain — yn dipyn o gamp i unrhyw feddyg ifanc; ond fe gas y Dr. Dewi ddou bapur mewn un rhifyn yn ddiweddar, un ar ei ben ei hun ac un ar y cyd â rhai o feddygon erill yr Ysbyty! Sôn yr oedd yr papure am Astudiaethe Genedigaethe Cardydd — rhwbeth ma'n nhw wedi bod yn gwitho arno fe ers tro yn Adran Iechyd Plant yr ysbyty Athrofaol Llongyfarchiade felly i'r Dr. Dewi.

— Wrth gwrs, fe gawd rhagor eto o bleidleisio wedyn gyda'r Etholiad Cyffredinol. Cyd-ymdeimlwn â'r Doctoriaid Dafydd Huws a Harri Pritchard-Jones, a'u croesawu nhw 'nôl i witho yn Ysbyty'r Eglwys Newydd, gan na fydd y naill nawr yn mynd i San Steffan, na'r llall y gyfarfodydd di-ben-draw Cyngor y Ddinas. Croeso'n ôl hefyd i ddarpargynghorwreg arall o fyfyrwreg, sef Gwen Tilley, na fu ei brwydr hi yng Nghathays yn un llwyddiannus whaith. (Iesgyrn! Fe fyse Mr. Gladstone wedi troi yn ei fedd i weld merch yn moyn bod yn feddyg, neu ferch yn moyn bod yn gynghorwr! Ond pan gewch chi'r un slipsen fach o groten yn mynnu bod y ddou beth — wel, 'smo'r Dr. Ifan yn gwpod, nag yw wir!)

Hyd tro nesa,
y Dr. Ifan.

## HEI! Dyma'r crys!

Mae'r creadur amryddawn hwnnw — Mistar Urdd yn mwynhau bywyd ac yn cymryd rhan mewn niferoedd o weithgareddau. Yn ddiweddar ymddangosodd ar grysau 'T' newydd Adran yr Urdd. Parc y Rhath.

Trefnwyd cystadleuaeth cynllunio symbol i'r crys yn yr adran, a chafwyd darluniau o Mistar Urdd yn adlewyrchu gweithgarwch yr adran drwy chwarae pel droed, sgipio, canu, dawnsio a gwneud jig-so. Cafodd pedwar aelod, Emma Fielding , Kathryn Edwards, Alun Jones a Dafydd Evans yr un syniad o Mistar Urdd yn hedfan barcud.

'Roedd cryn ddiddordeb yn yr adran ar nos Fawrth, Mai 1af pan ddaeth un o'r rhieni — Heather Jones i rannu'r crysau i'r plant. Gwerthwyd bron i 70 o grysau o faint 24 bach i rai mawr oedolion (mae yna rai ar ôl os oes gennych ddiddordeb). Aeth yr elw ynghyd ag elw'r siop Siafins i sicrhau bod Adran Parc y Rhath wedi codi'r swm angenrheidiol i gronfa Punt y Pen yr Urdd. Ymateb rhagorol gan blant a rhieni'r adran, yn wir.



**Heather Jones yn rhannu'r crysau i'r plant gyda Emma a Katryn yn ei chynorthwyo.**

# 'Mae'n rhaid inni wneud ein bodolaeth yn hysbys'

## — *medd y Cyfarwyddwr*

**Beth yw'r cysylltiad rhwng ffos castell yn Sussex â Sir Gâr, neu rwng tractor Mr. Chaplin, ffermwr o Cleve yn ymyl Bryste â pharc ym Morgannwg? Wel, mewn ffos castell yn Sussex ac ar dractor Mr. Chaplin y glaniodd dwy o'r balwns ollyngwyd yn Ras Fawr balwns Mudiad Ysgolion Meithrin, Mai 5ed, 1979.**

Trefnwyd y ras fel un o nifer o weithgareddau i'w cynnal yn ystod yr ŵyl Feithrin; y tro cyntaf i'r Mudiad ddathlu gŵyl o'r fath. Defnyddir elw y ras i noddi athrawes feithrin mewn ysbyty fel cyfraniad y Mudiad tuag at Flwyddyn Ryngwladol y Plentyn. Gwerthwyd 10,000 o falwns a thelir gwobr o £10 a thymor o addysg feithrin rhad ac am ddim i'r sawl brynodd y balwn aeth bellaf. Daeth ambell i docyn yn ôl eisioes a sylwadau doniol ar ambell un; 'found in our moat', '15 more still in the tree', 'on the ledge at Rode, Wilts.', 'found on Sweeney Mountain', 'found on our tractor — we gave it a lift home and it sends its love'. Nid oes wirionedd o gwbl yn y stori sy'n mynd ar led bod Mair Owen wedi cael taith i Efrog Newydd i gymryd un balwn er mwyn dileu unrhyw amheuaeth pwy oedd berchen y balwn aeth bellaf!

Diben trefnu gŵyl fel hon oedd symbylu gweithgarwch yn y Mudiad ac hefyd bontio rhyngom ni â'r di-Gymraeg. Os am gynnydd yn nifer ein cylchoedd mae'n rhaid inni wneud ein bodolaeth yn hysbys i fwy a mwy o'n cyd-Gymry a'u hennill i'r Mudiad a'i amcanion.

Trefnwyd y dathliadau ar dair lefel. Yn gyntaf, roedd bron i bob un o'r 350 o gylchoedd yn agor ei ddrws a chroesawu'r cyhoedd i mewn: cynghorwyr, aelodau seneddol, swyddogion yr Awdurdodau Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, i weld y plant wrth eu gwaith.

Yn ail bu'r Pwyllgorau Sir yn trefnu amrywiol weithgareddau, nosweithiau cymdeithasol, cyngherddau, cystadlaethau arlunio ac ysgrifennu stori, teithiau cerdded ac ymgyrch arlunio.

Cafwyd hwyl a sbri arbennig mewn ambell fan; cant o rieni Môn yn cerdded o bum man yn y sir i Langefni i ollwng y balwns, arddangosfa yn gysylltiedig â Blwyddyn Ryngwladol y Plentyn; rhieni a phlant Dwyfor yn cyrraedd mewn lori wartheg i gerdded i lawr y Lôn Goed a Dyfan Roberts, yr actiwr, yn darllen stori i'r plant yn llyfrgell Pwllheli. Trefnwyd awr stori Gymraeg yn Llyfrgell Cwmbran. Ydy hyn yn record? Ai dyma'r tro cyntaf i rywun adrodd stori Gymraeg mewn llyfrgell yng Ngwent? Bu plant De Morgannwg a'u rhieni yn cyrchu i Theatr y Chapter i baentio gyda'i gilydd ac wedyn ar fore Sadwrn oer a gwlyb yn gorymdeithio trwy ganol y ddinas i ollwng y balwns. Cafwyd cystadlaethau brwd yn Nyfed, a murluniau heirdd ar waliau llyfrgelloedd y sir, gyda Dafydd Iwan yn cyflwyno gwobrau i'r plant buddugol.

Yn olaf trefnodd Swyddfa'r Mudiad ymgyrch bosteri gyda'r slogan 'I Wish I'd had the chance to speak Welsh — Give **your** child the chance to speak Welsh', wedi ei chefnogi gan sêr byd adloniant a chwaraeon; gwerthwyd crysau T a beiros, argraffwyd sticeri car a chynhyrchwyd caset newydd 'Hwyl Wrth Ganu' i blant ein cylchoedd ac aeth 50,000 o lythyrau trwy Swyddfa Bost Caerdydd yn hysbysebu'r Mudiad.

Do yn wir, cyhoeddwyd y Mudiad ar hyd a lled y wlad yn ystod yr wythnos honno; Hywel Gwynfryn, Dan Damon, Ruth Parry, HTV a Radio Abertawe, y papurau cenedlaethol, lleol a bro, pob un yn rhoi sylw inni. Teimlwn yn hyderus ein bod wedi llwyddo i sefydlu ein hunain yn Fudiad blaenllaw yng Nghymru ymhlith y di-Gymraeg yn ogystal â'r Cymry Cymraeg.

**J. Bryan Jones**
**Cyfarwyddwr**

# MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

# Llwyddiant yr ŵyl feithrin

# ag

# CADEIRYDD NEWYDD YR ACADEMI

**Mae'r Athro Alun Llywelyn Williams, cyfarwyddwr Adran Efrydiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, wedi ei ethol yn Gadeirydd Adran Gymraeg Yr Academi Gymreig. Bydd yn olynu'r Dr. Bobi Jones, Aberystwyth.**

Ganed yr Athro yng Nghaerdydd a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd a Choleg Prifathrofaol Deheudir Cymru a Mynwy. Cyn dod yn gyfarwyddwr adran Efrydiau Allanol Coleg y Gogledd ym 1948, bu'n gweithio gyda'r BBC yng Nghaerdydd, Llundain a Bangor.

Cyhoeddodd nifer o gyfrolau gan gynnwys:

Cerddi (1944)
Crwydro Arfon (1959)
Y Nos, y Niwl a'r Ynys (1960)
Nes Na'r Hanesydd (1968)
Gwanwyn yn y Ddinas (1975) a R.T. Jenkins (Cyfres Writers of Wales, 1977)

Bu'n aelod o Bwyllgor Cymreig Cyngor y Celfyddydau 1958-1967 ac yn Gadeirydd Cymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru er 1977. Mae hefyd an aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr HTV Cyf. er 1967.

**DARLLEDU CAERDYDD**
**(Cardiff Broadcasting)**

CYFARFOD CYHOEDDUS
MEHEFIN 11eg, 7.30p.m.
THEATR DDARLITHIO
REARDON SMITH

*Bydd y cyfarfod uchod o bwys i ddarllenwyr y Dinesydd. Os oes gennych chi ddiddordeb yn yr orsaf radio lleol fydd yn agor yng Nghaerdydd ym 1980, ac yn lle'r Gymreig yn ei rhaglenni, fel y dylai fod,*
*EWCH I'R CYFARFOD,*
*yn Gymdeithasau, Capeli, Eglwysi neu'n unigolion.*
*NAWR YW'R AMSER*
*i chi llais yn y cynllunio.*